

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Ebrill 2018

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Terry Bullock, Siân Godbert, Janet Charlton, Caerwyn Roberts Clerc  
Ymddiheuriadau -- Nick Corney, Marion Bettenev, Cyng. Elisabeth Roberts

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 12fed Fawrth 2018

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Dywedodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach wedi dod i law ynglŷn â'r mater.

[1.2] Ffordd yn Arwain i fyny Heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i loriau

Nodwyd yn siomedig nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

[1.3] Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Nodwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu am 3.00 o'r gloch y prynhawn yn y Neuadd Goffa dydd Llun y 23ain Ebrill 2018.

[1.4] Iechyd a Diogelwch Neuadd Goffa/Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y clerc bod archwiliadau trydanol ac asesiad risg wedi ei gwblhau yn y ddau leoliad.

Y brif Agenda

[1.5] Materion Cynllunio

Codi ysgubor bwyta bren dros dro o ddechrau Gorffennaf hyd i ddiwedd Hydref. Gwesty'r Waterloo, Betws-y-Coed.

Y clerc i anfon at y Parc Cenedlaethol nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r cais, ond bod pryder gan fod y lleoliad ar fin ffordd yr A5.

[1.6] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Mawrth 2018

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mawrth 2018.

[1.7] Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy

Nodwyd bod cynigion i gyfuno cymunedau Betws-y-coed, Capel Curig, Dolwyddelan, Dolgarrog a Threfriw i ffurfio ward o 1,960 o etholwyr, gyda'r enw Cymraeg Betws-y-Coed a Threfriw. Dyddiad cau i unrhyw sylwadau 25ain Fehefin 2018

[1.8] Gwefan Ymweld â Betws-y-Coed

Gan fod y Cyngor Cymuned gyda gwefan yn barod penderfynwyd peidio ceisio aelodaeth.

[1.9] Llynnoedd Gwydyr

Nodwyd bod gwaith trwsio/ cynnal a chadw i gael ei wneud yn ystod yr haf a glan gaeaf yn llynnoedd Goddionduon, Ty'n y Mynydd, Cyfty a Sarnau.

[2] Diffibilrwydd Canolfan Rhyd y Craeau

Cyfeiriodd y clerc at gais am gyfraniad i osod diffibilrwydd yn y ganolfan. Penderfynwyd gan nad yw'r ganolfan o fewn y gymuned i wrthod y cais.

[2.1] Parcio ar Ffordd yr A5 Gyferbyn a Siop Spar

Cyfeiriodd y clerc at lythyr oddiwrth Mrs Rachel Evans yn datgan trafferthion gyda gwardeiniaid Cyngor BS Conwy. Dywedodd y clerc bod y Cyng Elisabeth Roberts yn trafod y mater gyda'r Cyngor Sir.

[2.2] Manholes a Gridiau Dwr Ffordd yr A5

Y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â chwynion a wnaed eisoes ynglŷn â'r gridiau dwr ayb.

Cadeirydd \_\_\_\_\_